

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF  
BAE COLWYN, A GYNHALIWDYD NOS FERCHER, 12<sup>FED</sup> AWST 2015 AM 6.30 P.M.  
YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE  
COLWYN**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Y Cynghorydd Dr S. Roy  
Y Cynghorydd D. Griffiths, Is-Gadeirydd  
Cynghorwyr: J. Davies, C. Hughes, Mrs H. Meredith, T. Pearson, Mrs  
V. Perry, P. Richards, S. Taylor, G. Ward.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr C. Ashman, 'The Means'

**117/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc iddi dderbyn llythyr ymddiswyddo, dyddiedig 28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2015 oddi wrth y Cynghorydd J. Reaney, Cadeirydd y Pwyllgor. Fe nodwyd bod y Cynghorydd Reaney wedi gadael yr ardal heb adael cyfeiriad.

*Penderfynwyd nodi'r ymddiswyddiad gyda gofid a hysbysu CBS Conwy bod yna Wagle Achlysurol yn Ward Eirias.*

Gyda'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd D. Griffiths yn y Gadair, croesawodd ei gyd-aelodau i'r cyfarfod. Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A. Khan.

**118/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**119/15 Ymwelydd â'r Cyngor:**

Croesawodd y Cadeirydd, Chris Ashman o "The Means" i roi cyflwyniad ar ddull o ddatblygu ardal Bae Colwyn fel 'Man Cyfansawdd'. Cyflwynodd y Clerc cynnig ysgrifenedig gan 'The Means' yn manylu ar: y sefyllfa bresennol a'r posibilrwydd bydd angen i'r Cyngor Tref mabwysiadu dull 'Man Cyfansawdd' er mwyn ymateb i ddeddfwriaeth ddiweddar, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; cynnig gan 'The Means', yn amlinellu'r amcanion allweddol a dull pedwar cam i ddatblygu cynllun 'Man Cyfansawdd'; crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â phob cam o'r broses. Diolchodd Mr Ashman i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i ddod i gyflwyno'r cynnig yn bersonol, ac yna rhoddodd amlinelliad byr o'r broses oedd yn cael ei awgrymu a'r cymorth oedd ar gael gan 'The Means'. Fe gynhwysir sleidiau'r cyflwyniad yn Atodlen 'A' i'r cofnodion hyn. Rhoddodd manylion am brosiect tebyg a wnaed gan Gyngor Gwledig Llanelli. Pwysleisiodd yr angen i'r Cyngor pwysu a mesur y sefyllfa ym mhob Ward ac edrych ar beth mwy sydd angen ei wneud i wella llesiant y cymunedau lleol gan ddefnyddio'r saith cyrchnod llesiant fel fframwaith. Pwysleisiodd hefyd, yr angen i'r gymuned leol cael mwy o lais yn y broses gyfredol o adnewyddu. Aeth drwy'r broses pedwar cam yn fyr. Terfynodd trwy hysbysu'r

Aelodau bod Cyngor Gwledig Llanelli wedi medru cyflwyno adnoddau, hyd yn hyn, o dros dair gwaith y gost o'r gwaith ymgynghori i'w helpu i gyrraedd rhai o'r blaenoriaethau allweddol a ddynodwyd.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb yn cynnwys y canlynol: pwy fydd yn gwneud y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm a'r dull 'Man Cyfansawdd' - staff cefnogol presennol y Cyngorau Sir a Thref i gefnogi'r broses, a'r gymuned ehangach yn ymwneud â chyflwyno prosiectau / canlyniadau, gan felly defnyddio'r adnoddau sydd ar gael; sut gall aelodau lleol fod yn rhan o'r broses - trwy fod yn rhan o weithgor aelodau ward; cydnabod y diffyg cyswllt presennol rhwng gwaith strategol y Cyngor Sir a'r gymuned leol - bydd y broses hon yn annog 'cyswllt dwyffordd' a fydd yn rhoi crediniaeth i'r llais lleol; a fyddai dull 'One Ilfracombe' yn well fodd i gymunedau lleol ymwneud â'r cyhoedd ehangach, a'r sectorau preifat a gwirfoddol i lwyddo i gael yr hyn sydd ei angen / a ddymunir - rhy gynnar i warantu canlyniadau oherwydd nad yw 'One Ilfracombe' ond wedi bodoli am 3 blynedd, ond mae gwersi i'w dysgu o'r dull hwn.

Diolchwyd i Mr Ashman am ei gyflwyniad addysgiadol a diddorol a gadawodd y cyfarfod.

#### **120/15 Cofnodion:**

- a. *Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 1<sup>af</sup> Gorffennaf 2015.*
- b. *Penderfynwyd derbyn Cofnodion Drafft cyfarfod yr Is-Bwyllgor Adeiladau a gynhaliwyd ar 27<sup>ain</sup> Gorffennaf 2015.*

#### **121/15 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:**

- a. **Cofnodion 73/15 a 106/15(b) – Trosglwyddo'r Rhydd-ddaliad:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, yn hysbysu'r Pwyllgor bod CBS Conwy wedi cadarnhau bod y gollwng dŵr wedi'i atal ac fe archebwyd y rhannau i drwsio'r bwyler. Fe ddylent fod wedi cael eu gosod o fewn yr wythnos. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer y bore canlynol i gadarnhau'r wybodaeth angenrheidiol, yn cynnwys lleoliad y mesurydd a thystysgrifau diogelwch ayb. Os bydd y wybodaeth a dderbynnir yn y cyfarfod hwn yn ddigonol i fodloni'r Clerc a'r tenantiaid, fe ddisgwylir i'r trosglwyddiad o'r rhydd-ddaliad cael ei gwblhau yn gynnar yr wythnos nesaf.

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau, unwaith i'r gwaith o drwsio'r bwyler cael ei gwblhau, bydd angen gwasanaeth gofal i'r rheolydd gwresogi deallus (system rheoli busnes neu SRhB) sydd ynghlwm â'r system gwresogi'r drws nesaf. Y gost fydd £440 (amcan bris a dderbyniwyd gan y contractwr presennol a gyflogir gan Heddlu Gogledd Cymru). Fe nodwyd y gellir adennill y swm yma oddi wrth ddefnyddwyr eraill y system.

*Penderfynwyd rhoi awdurdod i alw ar Smart Control Systems Ltd i roi gwasanaeth gofal llawn i'r rheolydd gwresogi SRhB unwaith y derbynnir cadarnhad bod y bwyler yn gweithio'n iawn.*

**b. Cofnod 106/15(b)(v) – Gwasanaeth Gofal y Larwm Dân:**

*Penderfynwyd cadarnhau argymhelliad yr Is-Bwyllgor i ymestyn y cytundeb gyda Snowdonia Fire Protection i ofalu am y panelau a'r offer ar y safle yn gyfan gwbl, ac eithrio gorsaf yr heddlu.*

**c. Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Adeiladau.**

**ch Cofnod 73/15(d) – Myfyrwyr Ymgynghorol:**

Cyflwynodd y Clerc diweddariad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod gyda Phennaeth y Chweched Ddosbarth, Ysgol Uwchradd Eirias. Fe nodwyd bod yr Ysgol yn awyddus i barhau i gefnogi'r prosiect Myfyrwyr Ymgynghorol ac i wella'r cysylltiadau rhwng yr ymgynghorwyr a benodwyd a Chyngor yr Ysgol. Datganwyd diddordeb hefyd yn y posibilrwydd o gynnal cystadleuaeth trafod rhwng ysgolion / coleg.

Dywedodd y Clerc hefyd wrth yr Aelodau ei bod yn tybio na gynhaliwyd y cyfarfod arfaethedig rhwng y Cynghorydd Reaney a Phennaeth Ysgol Bryn Elian cyn iddo ymadael ac mi fydd felly yn ceisio trefnu cyfarfod ar ddechrau'r tymor ysgol newydd.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r diweddariad gan y Clerc a gofyn a all myfyrwyr Gwobr Dug Caeredin lenwi'r swyddi hyn yn y flwyddyn academaidd newydd, os nad oes digon o enwebiadau yn dod i law.*

**d. Cofnodion 416/14(d) a 76/15(c) – Cynlluniau Ardal:**

Cyflwynodd y Clerc llythyr a dderbyniodd oddi wrth Shane Wetton, Prif Swyddog Datblygu'r Gymuned, CBS Conwy, yn hysbysu'r Cyngor bod pob un o bum Cynllun Ardal CBS Conwy wedi cael eu cyfuno i greu un Cynllun. Fe ofynnir i Gynghorau Tref a Chymuned pob blwyddyn am restr o brosiectau a fyddai'n gallu cyd-fynd a phrosiectau sy'n ymddangos o archwiliadau ward, gwerthusiadau cymunedol a Chynlluniau Strategol (megis Byw yn y Bae).

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cyflwyniad a gafwyd yn gynharach heno ac a fyddai'r dull 'Man Cyfansawdd' a awgrymwyd gan 'The Means' yn gallu helpu'r Cyngor Tref i ddiweddarau / creu Cynllun Lle fel y cyflwynwyd yn y Ddeddf Cynllunio newydd ac a fyddai'n cyd-fynd â'r Ddyletswydd Llesiant a orfodwyd trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fel aelod y Cabinet dros Gymunedau, dywedodd y Cynghorydd Hughes wrth yr aelodau bod Cynllun Lle yn cael ei ddatblygu yn Abergele, gyda chymorth gan GBS Conwy, ac efallai y gellir dysgu o'r broses a'r ymgynghoriad sy'n cael ei ddefnyddio yna. Roedd pob aelod yn cytuno bod angen adborth gan y gymuned leol ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal a pha gymorth / prosiectau ychwanegol sydd eu hangen i wella llesiant.

*Penderfynwyd gohirio'r mater a gofyn i'r Clerc gysylltu â James Harland, CBS Conwy, am wybodaeth am yr ymgynghori presennol efo Cynllun Lle Abergele.*

## **122/15 Cyllid / Archwilio:**

- a. *Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 20/6/15 i 24/7/15 sy'n ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.*
- b. *Penderfynwyd derbyn a llofnodi copi o ddatganiadau cysoni diweddaraf y banc.*
- c. *Penderfynwyd derbyn crynodeb o'r incwm a gwariant am y chwarter cyntaf.*
- ch Cyflwynodd y Clerc manylion am enillion Cronfa Eiddo Awdurdodau Lleol CCLA. Fe atgoffwyd yr Aelodau am y cyfyngiadau cyfreithiol llym sy'n ymwneud â'r defnydd o gronfeydd cyfalaf, yn cynnwys yr angen iddynt gael eu defnyddio ar wariant cyfalaf ar asedau cyhoeddus yn unig (h.y. ni ellir rhoi cyllid i gorff gwahanol, megis Ymddiriedolaeth Datblygu).

Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a fyddai'n briodol i drosglwyddo enillion cronfa adnau'r tymor terfynol (£50,000) i'r Gronfa Eiddo gan ddod a gwerth yr holl ddaliad i £150,000, yn unol â'r arian cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor. Fe nodwyd bod y gronfa wedi cynhyrchu enillion o rhwng 4% a 5% yn gyson dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â graddfeydd o lai nag 1% yng nghyfrif banc adnau tymor penodol (blwyddyn).

*Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc i drosglwyddo £50,000 i Gronfa Eiddo CCLA, i greu buddsoddiad o £150,000 (gan adlewyrchu holl werth yr arian cyfalaf wrth gefn y Cyngor a glustnodwyd).*

## **123/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:**

- a. Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 13<sup>eg</sup> Gorffennaf. Fe nodwyd iddi gyrraedd yn hwyr oherwydd y beirniadu ar 'Cymru yn ei Blodau', yn gynharach yn y diwrnod. Prif fusnes y cyfarfod oedd cael cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr am yr opsiwn dewisedig ar gyfer yr adolygiad o'r Prif Gynllun. Roedd hwn yn debyg i fynd am ymgynghoriad cyhoeddus ym Medi. Datganwyd peth pryder yn y cyfarfod am rai o'r cynigion, yn arbennig am y system traffig unffordd a fwriadwyd.

*Penderfynwyd nodi'r adroddiad a disgwyl am fwy o fanylion am yr adolygiad o'r Prif Gynllun yn y man.*

- b. Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfodydd Rhwydwaith y Clercod a Fforwm CBS Conwy / Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 15<sup>fed</sup> Gorffennaf. Hysbyswyd yr Aelodau mai prif eitemau agenda'r cyfarfodydd oedd hyfforddiant (i swyddogion ac aelodau), ffioedd parcio ac astudiaethau dichonadwy arfaethedig ar ffioedd newydd mewn rhai mannau, yn cynnwys promenâd Bae Colwyn, a bod adolygiad o'r Siartr a'r Cynllun Gwaith yn hwyr (ychwanegwyd at agenda'r cyfarfod nesaf).

Hysbyswyd yr aelodau gan y Clerc bod Aelodau'r Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda defnyddwyr y promenâd / traethau, er mwyn ceisio darganfod pa effaith fydd ar y bwriad i godi

tâl ar rai rhannau o'r promenâd ac / neu faes parcio Porth Eirias. Gofynnwyd a oedd yr ymgyngoriad hwn yn gynamserol, ond dywedodd y Clerc wrth yr aelodau y byddai'n well i ymgyngori yn ystod tymor prysur yr haf rhag ofn i'r cynigion cael eu derbyn yn ystod misoedd tawel y gaeaf.

***Penderfynwyd nodi adroddiad y Clerc a disgwyl am fwy o wybodaeth am yr astudiaeth parcio ddichonadwy yn y man.***

- c. Cyflwynodd y Clerc copi o lythyr a ddanfonwyd gan GBS Conwy at y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus parthed Map Diwygiedig Llywodraeth Leol.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r ymateb a anfonwyd gan y Cyngor Sir.***

- ch Cyflwynodd y Clerc copi o'r Siatr a'r Prif Gynllun a diweddarwyd, ac a dderbyniwyd yn ddiweddar gan GBS Conwy. Hysbysodd yr aelodau bod hyn i gael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf Fforwm CBS Conwy / Cyngorau Tref a Chymuned.
- d. BID Colwyn - Cyflwynodd y Clerc nodiadau o gyfarfod diweddar Grŵp Llywio BID na fu'n gallu ei fynychu. Fe nodwyd bod cynnig BID yn debyg o fynd i bleidlais ym mis Hydref.

***Penderfynwyd derbyn a nodi sleidiau'r cyflwyniad.***

- dd Digwyddiadau - Fe nodwyd bod Grŵp Digwyddiadau newydd wedi cyfarfod yn ddiweddar, i gynnwys swyddogion o'r Cyngorau Sir a Thref sy'n ymwneud â chyflwyno a / neu gefnogi digwyddiadau yn ardal Bae Colwyn, ynghyd a chynrychiolydd o grwpiau busnes lleol. Nod y grŵp yw rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar ddigwyddiadau lleol a datblygu dull mwy cydlynol. Enghraifft o hyn byddai annog mwy o ddigwyddiadau yn y gymuned ac yng nghanol y dref er mwyn cefnogi digwyddiadau mawr ym Mharc Eirias i fwyhau'r buddiant cymdeithasol ag economaidd a ddaw yn sgil hyn. Cytunwyd y dylid defnyddio'r rhan digwyddiadau o wefan y Cyngor Tref fel y pwynt cyntaf i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Cafwyd trafodaeth am gyllid ar gyfer digwyddiadau lleol a hysbyswyd y grŵp gan y Clerc bod y Cyngor Tref yn paratoi cronfa o gyllid sydd ar gael yn flynyddol i gefnogi digwyddiadau 'maint canolig'. Fe nodwyd hefyd bod copi o Strategaeth Digwyddiadau CBS Conwy ar gyfer 2014-20 ar gael gan y Clerc, ar gais.

***Penderfynwyd nodi adroddiad y Clerc.***

**124/15 Llywodraeth Cymru:** Cyflwynodd y Clerc y dogfennau Ymgyngori / Arweiniad canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- a. Diogelu Asedau Cymunedol (gohiriwyd o'r cyfarfod blaenorol) - Cafwyd trafodaeth ar gwestiynau 3 a 4 ac fe gytunwyd ar ymateb, gyda'r mwyafrif o'r aelodau o blaid dewis C - datblygu model newydd i Gymru.

*Penderfynwyd dirprwyo'r cyfrifoldeb o gyflwyno ymateb ymgynghori ar ran y Pwyllgor i'r Clerc.*

**b. Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru**

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddogfen ymgynghori.*

**c. Gwella Cyfleoedd i Fynediad i Adloniant Cyfrifol Allanol**

*Penderfynwyd dirprwyo i'r Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio i ystyried ac ymateb.*

**ch. Ymgynghoriad ar Gau Pysgodfa Cregyn Gleision Foryd a Bae Conwy.**

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddogfen ymgynghori.*

**d Mesur Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru):**

Trafododd yr Aelodau'r egwyddor gyffredinol o isafswm pris am uned o alcohol. Y farn oedd byddai newid diwylliannol, mwy o addysg am effeithiau alcohol a gwell adferiad yn cael mwy o effaith ar leihau'r ddibyniaeth ar alcohol a'r baich ar y GIG yn hytrach na gosod isafswm pris am uned.

*Penderfynwyd argymhell bod y Cyngor yn ymateb trwy ddweud nad yw'n cytuno a'r bwriad i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n cyflwyno isafswm pris am uned o alcohol yng Nghymru.*

**125/15 Panel Annibynnol Cymru ar Gvdnabyddiaeth Ariannol:**

*Penderfynwyd dirprwyo awdurdod i'r Clerc i gwblhau'r archwiliad a'i ddychwelyd.*

**126/15 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad drafft i'w ystyried i'w anfon at y gweinidog Dros Wasanaethau cyhoeddus ynglŷn â Diwygiadau arfaethedig i Lywodraeth Leol.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r ymateb drafft.*

**127/15 Un Llais Cymru:**

- a. Cyflwynodd y Cynghorydd Roy adroddiad ysgrifenedig byr ar Gynhadledd y Cynghorau mwy a gynhaliwyd yn ddiweddar.

*Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.*

- b. Rhoddodd y Cynghorydd H. Meredith adroddiad byr ar lafar am gyfarfod diweddar y Pwyllgor Ardal a oedd hefyd yn cyfarfod blynyddol. Fe nodwyd bod cynrychiolwyr Ardal yn poeni am aelodaeth a recriwtio ac roedd y nifer oedd yn bresennol yn isel. Nid oedd y Prif Weithredwr yn bresennol.

*Penderfynwyd nodi'r adroddiad a diolch i'r Cynghorydd Meredith am fod yn bresennol.*

- c. *Penderfynwyd rhoi awdurdod i gynrychiolwyr y Cyngor Tref mynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar 3<sup>ydd</sup> Hydref os medrant ac yn barod i wneud hyn.*
- ch. Cyflwynodd y Clerc nodyn briffio a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru am Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r dogfennau briffio.*

- d. Cyflwynodd y Clerc datganiad ysgrifenedig ar Gasglu a Rheoli Trethi a Ddatganolwyd a gwybodaeth am y Mesur.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynigion.*

**128/15 Gwasanaeth Cyngori Cyngorau Lleol Zurich:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y seminar a gynhaliwyd yn ddiweddar. Fe nodwyd, o ganlyniad i'r eitem ar Gynllunio ar gyfer Argyfwng ar yr agenda, roedd angen i'r Clerc gweithredu parthed:

- a. Casglu rhestr o fanylion cyswllt i'w defnyddio mewn argyfwng,
- b. Creu dyddiadur electroneg ar gyfer llogi Neuadd y Dref i gymryd lle'r cofnod papur presennol.

*Penderfynwyd nodi'r adroddiad a gofyn i'r Clerc casglu'r rhestr gyswllt angenrheidiol (i'w defnyddio gan y staff a'r Maer mewn achos o argyfwng) ac i sefydlu system electroneg i logi ystafelloedd.*

**129/15 Grantiau:**

- a. Fe nodwyd bod llythyrau o ddiolch wedi cael eu derbyn oddi wrth y mudiadau canlynol:  
Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn.
- b. *Penderfynwyd derbyn y llythyr diweddar a chyfrifon Cymdeithas Gefeillio Bae Colwyn, Abergele a'r Cylch.*

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 p.m.

.....Cadeirydd